

Cyngor Cymuned Pentir
Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 12fed o Fedi 2019
yn Y Ganolfan, Glasinfryn am 7pm.

Agenda

Presennol:

Ymddiheuriadau:

Cyfethol Eleri Jones i ward Faenol

Derbyn cofnodion 11eg o Orffennaf 2019

Materion yn codi o'r cofnodion

Is-bwyllgor Cyllid - Cofnodion 28ain o Awst

Materion Archwilwyr Allannol

- Mabwysiadu Rheoliadau Ariannol
- Adnabod ag Asesu Risg

Polisiau eraill

- Mabwysiadu'r Rheolau sefydlog
- Sefydlu polisi GDPR
- Adnabod Polisi Iaith

Ceisiadau Cynllunio Dim hyd yma

Diweddariad gweinyddiaeth Canolfan Penrhosgarnedd

Materion y Clerc

- Gohebiaethau
 - Ad-daliad Ysw
 - Cofrestr buddianau i'w chwblhau
 - Trosglwyddo Arian i Cyfrif Cadw
 - Arwyddion Treborth
 - Taliad TAW oedd ddim yn ddyledus i ni
 - Digwyddiad Ffordd Hendrewen / Minffordd
 - SSL Delwedd
 - Deddf Amgylched Cymru – Environment Wales Act
- Adroddiad
 - Hysbysfyrdd Ysb Gwynedd

Materion y Cynghorwyr

Cyng C E Hughes	Blodau Gwyllt
Cyng L A James	Asesu Risg
Cyng J Griffiths	Dwr ar y ffordd yn Glasinfryn
Cyng M Baines	Llwybr Troed/Cyhoeddus Treborth a thrafferthion C P Ieuenctid Penrhosgarnedd

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion Cyngor Llawn gynhaliwyd Nos Iau 11^{eg} o Orffennaf 2019 yn Nghanolfan Glasinfryn am 7.00pm

Presennol:

Y Cyng. C. E Hughes, J. Griffiths, L. A. James, D W Jones, B Jones, M Baines, a J Pierce
E Jones (Clerc)

Ymddiheuriadau:

Y Cyng, D Jones-Morris, T Anwyl-Williams, H Griffiths , a M Lynch

Cadeirwyd ac offrymwyd gweddi gan Cyng Cynrig E Hughes.

Côd Ymddygiad

Atgoffwyd pawb o'n côd ymddygiad a'r angen i ddatgan buddiant ar y ffurflen bwrpasol os oes angen

Broses cyfethol i ward Faenol

Cyfnod galw am etholiad wedi dod i ben a Hysbysiad i Gyfethol wedi ei roi ers yr 8fed o Orffennaf.

Deuai cyfnod hwnnw i ben ar yr 20fed o Orffennaf.

Un enw oedd wedi cyrraedd ond ymholiad arall wedi ei wneud.

Cytunwyd

Os na fyddai enw arall yn dod ymlaen y **byddai'r broses yn dod i ben 20fed o Orffennaf.**

Tae mwy o enwau yn cyrraedd yna eu gwahodd i gyfarfod ar nos Fercher 31ain o Orffennaf gan na fyddai Is-Bwyllgor Cyllid ar y noson honno ond ar y 28ain o Awst .

Clerc i gyfathrebu

Derbyn cofnodion 13eg o Fehefin 2019

Derbynwyd cofnodion fel rhai cywir ar gynnig Cyng J Griffiths ag a eilwyd gan y Cyng B Jones

Materion yn codi o'r cofnodion

Parcio Penrhos

Adroddodd Cyng M Baines nad oedd dim wedi ei ddatrys ag mae ychydig iawn o ymateb gafwyd o Ysb

Gwynedd na Cyfoeth Naturiol Cymru

Ychwanegodd iddi gysylltu a CCG ynglyn a datblygu Pen y ffridd a chael ar ddeallt mae eu bwraid yw codi 30 o dai gyda 60% ohonynt dai marchnad agored a 40% i'w rhentu

Dim bwriad i ymestyn mwy na hynny ond fod trigolion lleol yn bryderus iawn am y cynydd fyddai yn y traffig

Is-bwyllgor Cyllid - Rhanwyd cofnodion IBC 26ain o Fehefin oedd ar y pryd yn dangos diffyg o £150 ond

oedd wedi ei ddarganfod gan nad oedd un Cynghorydd byth wedi cyflwyno sic traelia

Dim cais am nawdd a rhy fuan i gael unrhyw ymateb gan yr archwilyr allannol.

Dal i ddisgwyl ad-daliad giat y Fynwent gan Aviva

Cwblhawyd ag arwyddwyd ffurflen Dreth FATCA i HSBC oedd angen ei dychwelyd erbyn 22ain o Awst

Telerau'r Clerc

Bu i'r Is-bwyllgor Cyllid gyfarfod cyn y Cyngor Llawn heno i drafod telerau'r Clerc.

Argymhellwyd codi ei bwynt cyflog o Pwynt 20 i Pwynt 23 codi ei oriau wythnosol o 10 i 12 awr a'i ol-ddyddio i ddechrau Ebrill eleni

Cafodd yr argymhelliad ei gymeradwyo yn unfrydol a diolchwyd i'r Clerc am ei ymroddiad

Ceisiadau Cynllunio Dim cais wrth anfon yr Agenda ond Cais Treborth Uchaf C19/0643/25/LL i

Dymchwel estyniad presennola chodi estyniad deulawr yn ei le newydd gyrraedd a felly i'r Cynghorwyr ymateb

Trafodwyd e-bost oedd y Clerc wedi ei dderbyn o Gorfodaeth Gwynedd ynglyn ag ymholiad am Bryn Hywel Rhyd y Groes a hefyd Safle Coed Faenol wrth waelod Allt Faenol

Mynegwyd pryder dybryd am yr ymatebion negyddol

Canolfan Penrhosgarnedd

- E GM Cynhalwyd y cyfarfod ar y 9fed a bu llawer gwell ymateb y tro hwn gyda swyddogion yn cael eu dewis a gwirfoddolwyr eraill yn camu ymlaen i'w cynorthwyo
 - Cynrychiolydd o'r Cyngor Gwirfoddolodd Cyng Jean Pierce i gynrychioli'r Cyngor ar y pwyllgor
 - Cymorth gweinyddol Gwirfoddolodd Cyng Lowri A James i gymeryd cyfrifoldeb am yr ochr weinyddol gyda Helen Hayes yr Ysgrifennyddes bresennol yn barod i'w chefnogi
 - Cytunwyd i holi cyfrifwyr y Cyngor ynglyn a'u cael i ymgymeryd a trefnu cyflogau/tal gofaluwyr y Ganolfan
- Prydlesi ag amserlen dros yr Haf
Amlinnellodd y Clerc rhyw fras amserlen oedd wedi ei dderbyn gan adran Eiddo Cyngor Gwynedd ynglyn a'r hyn fyddai'n digwydd dros gyfnod yr haf.
Bwriedir codi ffensus diogelwch i wahanu y defnyddwyr a'r traffig cyn i'r ysgol ail-ddechra yn Mis Medi Maes Parcio yn unig fyddai i flaen y Ganolfan bresennol ar gyfer defnyddwyr y ganolfan a rhywfaint o'r contractwyr.
Dim parcio ar y dde wrth ddod o'r ffordd fawr i gyfeiriad y ganolfan

Materion y Clerc

- Gohebiaethau
 - Ad-daliad Ysw Y £504.58 sy'n ddyledus yn dal heb ei drosglwyddo
 - Cofrestr buddianau Gofynodd y Clerc i bawb gwblhau ffurflen oedd wedi i gynnwys gyda'r Agenda yn nodi ei buddiannau ag fel y gallai wedyn ddarparu cofrestr briodol
 - Taliadau dros yr haf Cytunwyd i'r Clerc dalu unrhyw daliad 'arferol' ddeuai ato yn ystod Mis Awst

Cais am nawdd Cylch Meithrin Penrhos

Yn sgil derbyn e-bost gan y Mudiad Meithrin ar ran Cylch Meithrin Penrhos gwahoddwyd y cylch yn EGM y ganolfan i ystyried gwneud cais ariannol i Cyngor Pentir dan Ad 137

Fe wnaethont hynny ag oherwydd na fyddai cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid tan ddiwedd Awst cytunwyd i ystyried eu cais heno

Ar ol dyfal drafod cynnigwyd cyfranu £750 tuag at eu costau. Cafodd y Cynnig ei eilio a'i gymeradwy yn unfrydol.

- Adroddiad
 - Hysbysfyrdd Ysb Gwynedd - Dim datblygiad o unrhyw fath i fedru gosod hwn
 - Blodau Gwyllt Parch Pentir wedi datgan cefnogaeth i'r menter yma yn Rhyd y Groes

Materion y Cyngorwyr

Cyng C E Hughes Bocsus Blodau – Nid yw'n ymddangos fod y bocsus yn lwyddiant ysgubol eleni am ba bynnag reswm. Maent yn amrywiol o ran eu cynnwys a hynny ar adegau ar yr un lleoliad.

Gofyn i'r contractwr brynu mwy o ddeunydd gan fod costau ei lafur/teithio yn llawer uwch na'r planhigion £65.73 ar gyfer 10 bocs = £6.57 y bocs

Cyng L A James Gwasanaeth Bysus Glasinfryn

Bu newid eto yn y cwmni sy'n gwasanaethu y gymuned yn ogystal a newid amseroedd

Carafan Waen Wen a Coed Y Faenol

Mae'n amlwg i bawb eto fod safle Coed Fodol a yn llenwi'n ol yn aradeg hefo carafania a ceir

Mae hefyd garafan a chyswllt i'r un teulu yn dal ar safle yn WaenWen er gwaetha tynnu sylw Cyngor Gwynedd at y mater dros flwyddyn yn ol

Clerc i gysylltu eto a'r Adran gorfodaeth

Cyng J Griffith Gordyfiant ar Ion Gefn i gyfeiriad Ysbyty Minffordd a thyllau yn dal yn hen ardal Glasinfryn

Clerc i gysylltu a'r Adran Priffyrdd

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15